CABINET ARBENNIG

COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD TRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER, 19 MAI 2021 AM 10.30 A.M.

PRESENNOL:

Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

N. George (Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Strydoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), S. Morgan (Economi, Menter ac Isadeiledd), L. Phipps (Tai), E. Stenner (Gwasanaethau Cwsmer, Perfformiad ac Eiddo), R. Whiting (Dysgu a Hamdden) ac A. Whitcombe (Cynaliadwyedd, Cynllunio a'r Fflyd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Economi ac Amgylchedd).

Hefyd yn Bresennol:

A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Swyddog Adran 151), E. Sullivan (Swyddog Gwasanaethau Uwch Bwyllgor) ac M. Harris (Swyddog Cynorthwyol Gwasanaethau Pwyllgor/Gyrrwr).

TREFNIADAU COFNODI A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod trwy wefan y Cyngor - Cliciwch yma i'w wylio. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud trwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd S. Cook (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol) ac R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Monitro)

2. DATGANIADAU BUDD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau budd ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

3. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd ar gyfer 19 Mai 2021 i 23 Mehefin 2021. Atgoffwyd yr aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen waith ac felly'n destun newid.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod y Blaenraglen Waith yn cael ei nodi. Cytunwyd yn unfrydol trwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

4. ARIANNU LLYWODRAETH Y DU AR GYFER ECONOMÏAU LLEOL A RHANBARTHOL - Y GRONFA CODI'R GWASTAD, CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DEYRNAS UNEDIG A CHRONFA ADFYWIO CYMUNEDOL Y DEYRNAS UNEDIG.

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar gyhoeddiadau diweddar Llywodraeth y DU ynghylch nifer o raglenni ariannu a chyllido newydd ar gyfer economïau lleol a rhanbarthol ac amlinellodd y cyfleoedd a'r cyfyngiadau i'r Cyngor a gyflwynir gan raglenni a mentrau cyllido newydd y DU gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, dyraniadau cyllid ac amserlenni datblygu.

Roedd yr adroddiad yn cynnig rhestr gychwynnol o brosiectau'r Cyngor a oedd yn gymwys i'w cyflwyno i'r rhaglenni cyllido newydd ac yn ceisio cymeradwyaeth i ddechrau'r gwaith datblygu angenrheidiol cyn gwneud cais. Amlygodd yr adroddiad hefyd yr effaith y bydd y rhaglenni yn ei chael ar y Cyngor wrth weinyddu'r rhaglenni newydd.

Nododd y Cabinet fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi manylion yn ddiweddar ynghylch sawl rhaglen ariannu a chyllido newydd ar gyfer economïau lleol a rhanbarthol, y bwriedir iddynt fod yn "rhaglenni i gymryd lle" Cronfeydd yr UE, sef: Y Gronfa Codi'r Gwastad, Cronfa Adfywio Cymunedol y DU a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Cafodd yr aelodau drosolwg o bob un o raglenni cyllido newydd y DU a'u cyfleoedd cyllido i'r Cyngor yn y dyfodol. Bydd symud tuag at y trefniant cyllido domestig hwn yn allweddol i wytnwch economaidd a ffyniant Bwrdeistref Sirol Caerffili yn y dyfodol ond bydd ganddo oblygiadau adnoddau i'r Cyngor a fydd yn gyfrifol am weinyddu'r rhaglenni.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog ac Aelod Cabinet am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Nododd yr aelodau yr amserlen dynn ar gyfer cyflwyno'r gwahanol gynigion a rhannwyd pryderon mewn perthynas ag adnoddau gan gynnwys capasiti Swyddogion, er mwyn gweithio ar y gwahanol geisiadau. Pwysleisiodd swyddogion yr angen i reoli disgwyliadau mewn perthynas â'r Gronfa Codi'r Gwastad gwerth £800 miliwn gan mai'r swm unigol hwn oedd y dyraniad trwy gydol y rhaglen a chyda cheisiadau yn cael eu gwahodd o bob rhan o'r wlad nid oedd yn debygol y byddai pob cais a gyflwynir yn llwyddiannus.

Trafodwyd y Gronfa Adfywio Cymunedol a thrafododd yr Aelodau effaith y ffaith bod Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr y tu allan i'r 100 lle â blaenoriaeth uchaf a dargedwyd a nodwyd bod lobïo helaeth wedi digwydd ar y mater hwn ac yn dal i ddigwydd gyda deialog weithredol yn digwydd rhwng yr Arweinydd ac amryw wleidyddion gan gynnwys Prif Weinidog y DU. Er bod hyn yn siomedig, rhoddwyd sicrwydd bod ffrydiau cyllido eraill ar gael o hyd, gan gynnwys Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a rhaglen fuddsoddi Llunio Lleoedd y Cyngor ei hun. Roedd diwedd Cyllido'r UE wedi golygu newid o'r model ariannu grant i broses fwy cystadleuol a byddai ansawdd y ceisiadau yn hanfodol i lwyddiant.

Nododd yr aelodau fod cynlluniau i'w hystyried wedi'u proffilio yn ddaearyddol er mwyn alinio ag Etholaeth yr Aelod Seneddol oedd â goblygiadau i gynnig Ffordd Liniaru yr A469 a allai ofyn am ymagwedd bartneriaeth â Chyngor Merthyr Tudful. Gofynnwyd am sicrwydd bod partneriaid ym Merthyr Tudful yn gwerthfawrogi pwysigrwydd strategol y prosiect hwn i ben gogleddol y cwm a chadarnhaodd y Swyddog fod cyd-ddealltwriaeth o rôl hanfodol y ffordd hon ac y gellid ei chyflawni trwy gyflwyno cais cydlynol ar y cyd.

Yn hyn o beth, cyfeiriwyd yr Aelodau at argymhelliad 3(iii) adroddiad y Swyddog a dywedwyd wrthynt, ar ôl ystyried llinellau amser a thrafod gyda Merthyr Tudful, bod angen mwy o amser er mwyn gwneud y cais mor gadarn â phosibl ac i'r perwyl hwn cytunwyd y dylid addasu argymhelliad (iii) i adlewyrchu y byddai'r cais yn cael ei wneud yn rownd 2 yn 2022 yn hytrach na Mehefin 2021.

Sicrhawyd y Cabinet gan y swyddogion bod cyfleoedd ar gyfer ariannu cyfatebol yn cael eu harchwilio gyda'r holl bartneriaid posibl gan gynnwys y sector preifat ac na ddylid anghofio bod cyfleoedd gwych i fanteisio ar yr arian Llunio Lleoedd sydd eisoes wedi'i neilltuo i yrru prosiectau yn eu blaen.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch gweithrediad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a chadarnhawyd y byddai hwn yn weithgor dan arweiniad Swyddogion.

Roedd yr aelodau'n cydnabod yr effaith y byddai gweinyddu'r gwahanol fidiau'n ei chael ar draws holl adrannau'r Cyngor a byddai angen monitro hyn yn agos wrth symud ymlaen, a theimlwyd y byddai'r cyllid capasiti o £125,000 sydd i'w dderbyn fel rhan o'r gronfa Codi'r Gwastad yn gwbl annigonol o ran yr adnoddau sydd eu hangen.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo argymhelliad 3.1(i-iv) yn amodol ar newid argymhelliad (iii) i ddarllen cymeradwyo bod Swyddogion yn gweithio gyda'u cymheiriaid yn CBS Merthyr i lunio cais ar y cyd ar gyfer Etholaeth Merthyr a Rhymni yn rownd 2 (Mehefin 2022) o'r rhaglen. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn trwy bleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn Adroddiad y Swyddog:-

i) Ystyrir manylion pob un o Raglenni Cyllido newydd y DU a'r cyfleoedd i'r Cronfeydd gyfrannu'n sylweddol at agendâu Llunio Lleoedd, Trawsnewid ac Adfywio y Cyngor ei hun.

ii) Cymeradwyo'r prosiect a nodir ym mharagraff 5.12 mewn perthynas â'r Gronfa Codi'r Gwastad a nodwyd trwy ymarfer Blaenoriaethu Prosiect a cheisio cymeradwyaeth i ychwanegu safle tir llwyd Rhisga at Fframwaith Llunio Lleoedd y Cyngor.

iii) Mae swyddogion yn gweithio gyda chymheiriaid yn CBS Merthyr i lunio cais ar y cyd ar gyfer etholaeth Merthyr a Rhymni yn rownd 2 (Mehefin 2022) o'r rhaglen.

iv) Nodi'r angen i glustnodi cyllid i gefnogi datblygiad prosiectau er mwyn cynyddu eu siawns o lwyddo ac i gwmpasu'r gofynion arian cyfatebol angenrheidiol.

v) Cymeradwyo creu Grŵp Gorchwyl a Gorffen, o dan fframwaith llywodraethu TîmCaerffili, i ddatblygu ymhellach y prosiectau wedi'u blaenoriaethu ar gyfer y Gronfa Codi'r Gwastad gan gynnwys yr holl waith angenrheidiol cyn cyflwyno cais, gan gynnwys ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol cyfagos ar brosiectau cydweithredu.

vi) Cefnogi ein her ar y cyd tuag at fethodoleg blaenoriaethu Llywodraeth y DU a ddefnyddir i bennu 100 o leoedd Blaenoriaeth Cronfa Adfywio Cymunedol, i'n galluogi i ddylanwadu ar ddangosyddion Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU arfaethedig.

vii) Cydnabyddir y bydd effaith sylweddol ar adnoddau i'r Cyngor wrth weinyddu'r Rhaglenni a'r angen i adnabod adnoddau addas i weinyddu'r rhaglenni Codi'r Gwastad, y Gronfa Adfywio Cymunedol a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig.

5. CAIS ARIANNU A469 TROEDRHIW'R-FUWCH

Gofynnodd yr adroddiad am farn y Cabinet ar ddyrannu cyllid Cyfalaf o £300,000 i ganiatáu symud ymlaen a datblygu'r dyluniad amlinellol ac amcangyfrifon cyllideb manwl ar gyfer cam nesaf cynllun gwella priffordd yr A469 Troedrhiw'r-fuwch.

Nodwyd, ar ôl cau'r A469 yn Nhroedrhiw'r-fuwch yn 2014 wedi i brif gyflenwad Dŵr Cymru fyrstio, bod dadansoddiad opsiwn ar gyfer llwybrau amgen yn awgrymu gofyniad cyllido o ryw £80,000. Cyflwynwyd adroddiad dichonoldeb i Lywodraeth Cymru a gofynnwyd am adolygiad helaeth o gyflwr presennol y ffordd cyn y byddai unrhyw ymrwymiad i ddargyfeirio ffyrdd yn cael ei ystyried. Nododd astudiaeth gychwynnol a gynhaliwyd yn 2016 y tebygolrwydd bod y methiant mecanwaith yn sylweddol a dechreuwyd monitro symudiadau ar y safle. Caniataodd grant ffyrdd cydnerth a sicrhawyd yn 2020 ar gyfer cynnal ymchwiliad safle mwy helaeth sydd wedi nodi nad yw dyfnder a maint ardal y tirlithriad mor fawr â'r hyn a nodwyd i ddechrau, er na ellir agor y ffordd yn llawn heb waith adfer sylweddol. Nodwyd atebion posibl gan gynnydd yn 2020/21 ac mae angen cyllid pellach i symud ymlaen gyda cham nesaf y datblygiad. O ystyried y materion sefydlogrwydd parhaus a chyfyngiadau mynediad un lôn draffig yn unig, mae sicrhau cyllid i ganiatáu datblygu dyluniad amlinellol o'r ateb a ffefrir yn flaenoriaeth ar gyfer 2021/22.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog ac Aelod Cabinet am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd hanfodol y llwybr hwn ac roeddent yn gweld y cynnig hwn fel ffordd gadarnhaol ymlaen y byddai holl drigolion yr ardal yn ei groesawu.

Rhoddodd swyddogion sicrwydd bod y safle'n cael ei archwilio a'i fonitro'n barhaus er mwyn sicrhau nad oes pryderon diogelwch ar hyn o bryd.

Nodwyd nad oedd yr argymhelliad yn yr adroddiad wedi nodi'r ffynhonnell ariannu ar gyfer y £300,000 a chytunwyd y dylid cynnwys argymhelliad ychwanegol i gymeradwyo ei ddyraniad o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer Llunio Lleoedd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad a'r argymhelliad ychwanegol uchod yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn trwy bleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD:

1. Gan mai dim ond tan 31 Mawrth 2021 yr oedd cyllid ffyrdd cydnerth Llywodraeth Cymru wedi'i ymestyn, cytunwyd y dylid dyrannu £300k arall i alluogi cwblhau'r dichonoldeb / dyluniad i gyrraedd yr opsiwn a ffefrir y gellir wedyn ei symud ymlaen i sefyllfa sy'n ymgorffori dylunio manwl, caffael ac adeiladu'r briffordd.

2. Ariannu'r £300,000 o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer Llunio Lleoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.14pm

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar wneud unrhyw gywiriadau yn y cyfarfod a gynhelir ar 9 Mehefin 2021.

CADEIRYDD